# Traciau a Llwybrau Rhannau Isaf Dyffryn Gwy

*Gweithio gyda'n gilydd i greu Cynllun Gweithredu ar gyfer Mynediad Hamdden yn Nyffryn Gwy, Sir Fynwy*

## Cwestiynau Cyffredin

1. **Pwy sy'n cymryd rhan?**
2. **Pa ardal fydd y strategaeth yn ei chwmpasu?**
3. **A yw hyn yn ddefnydd doeth o arian?**
4. **Pam fod yr ymgynghoriad gwirfoddol hwn yn cael ei gynnal?**
5. **Beth fydd yn cael ei gynnwys yng nghwmpas y strategaeth?**
6. **Pam fod angen i ni gymryd golwg strategol?**
7. **Pam fod yr ymgynghoriad hwn yn digwydd yn ystod y cam hwn o'r broses?**
8. **Pwy sy'n ein helpu ni gyda'r ymgynghoriad?**
9. **Beth sy'n digwydd nesaf?**

### 1. Pwy sy'n cymryd rhan yn y strategaeth?

Mae'r prosiect yn cael ei arwain gan Uned Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy a'i gefnogi gan Gyngor Sir Fynwy a Chyfoeth Naturiol Cymru.

### 2. Pa ardal fydd y Strategaeth yn ei chwmpasu?

Rhan Sir Fynwy o'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol[1], sef y rhan sydd yng Nghymru ac **nid** y rhan sydd yn Lloegr, yn Swydd Henffordd a Swydd Gaerloyw. Mae hynny oherwydd y gwaith a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy'r rhaglen Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy. Serch hynny, bydd y cysylltiadau traciau a llwybrau i Loegr yn cael eu cydnabod a gwahoddir partneriaid, cymunedau ac ymwelwyr o'r tu hwnt i'r ffin hefyd i ymgysylltu ac ymateb.

### 3. A yw hyn yn ddefnydd doeth o arian? Pam nad ydych chi'n gwario'r arian ar roi trefn ar un o'r llwybrau?

Gallai arian Llywodraeth Cymru gael ei ddefnyddio i ddewis un trac neu lwybr a gwario'r arian ar roi trefn ar ran ohono – efallai y byddai'n talu am gost pont droed, cynllun draenio naturiol syml ac ail-wynebu ychydig fetrau o lwybr – ond byddai hynny ond yn datrys un mater o blith ystod eang o broblemau ar draws y rhwydwaith. Felly, rydyn ni'n cymryd cam yn ôl, yn edrych ar y rhwydwaith yn ei gyfanrwydd ac yn gwrando ar ein cymunedau lleol, partneriaid ac ymwelwyr i weld beth yw'r blaenoriaethau yn eu barn nhw. Hefyd, yn hollbwysig, bydd y strategaeth a'r cynllun gweithredu yn cryfhau ein hachos wrth wneud cais am grantiau mawr yn y dyfodol wrth gyllidwyr fel y Loteri Treftadaeth ac eraill.

### 4. Pam fod yr ymgynghoriad gwirfoddol hwn yn cael ei gynnal?

Ambell reswm:

- Mae'n hysbys bod pryder yn y gymuned a nododd Cynllun Rheoli AHNE Dyffryn Gwy ystod o weithgareddau, pwysau ac effeithiau hamdden. Nododd ymgynghoriad cyhoeddus 2022 ar gyfer

[1] Mae Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn cael eu gwarchod gan y gyfraith oherwydd eu nodweddion tirwedd arbennig, bywyd gwyllt, daeareg a daearyddiaeth, mae AHNE yn cael mwy o warchodaeth nag ardaloedd eraill o dan y broses gynllunio. O ran tirwedd a golygfeydd, maent yn gyfartal â Pharciau Cenedlaethol. Wrth symud ymlaen bydd AHNE yn cael eu hadnabod fel Tirweddau Cenedlaethol. Am ragor o wybodaeth ewch i:
[Cyfoeth Naturiol Cymru / Mathau o ardaloedd gwarchodedig ar dir a môr]
[Cartref y Gymdeithas Genedlaethol dros Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (landscapesforlife.org.uk)]

'Astudiaeth Pentrefi Dyffryn Gwy' y gwerth y mae'r cyhoedd yn ei roi ar y llwybrau hyn a phryderon ynglŷn â chynnal a chadw a mynediad i bobl o bob oed a gallu[2]

- Yn ystod y 4 blynedd ddiwethaf, gwnaed rhywfaint o gynnydd i ddeall y materion yn well ac i archwilio atebion posib ar gyfer rhai llwybrau. Yn ogystal, mae cynllun peilot 2021 ar gyfer Chapel Hill Road, Tyndyrn yn cynnig gwybodaeth werthfawr am atebion sy'n isel o ran cost, yn seiliedig ar natur, i reoli dŵr ffo[3].
- Mae rhywfaint o wrthdaro'n hysbys ymhlith defnyddwyr, a allai gynyddu os na chymerir camau positif.

Mae'n hanfodol felly y gofynnir am farn y gymuned leol a grwpiau defnyddwyr ac y rhoddir ystyriaeth i'r farn honno wrth i'r strategaeth gael ei datblygu.

## 5. Beth fydd yn cael ei gynnwys yng nghwmpas y Strategaeth?

Mae rhan Sir Fynwy o AHNE Dyffryn Gwy yn gartref i rwydwaith mynediad hamdden helaeth: sy'n cynnwys Hawliau Tramwy Cyhoeddus a llwybrau coedwigaeth, Ffyrdd Sirol Di-ddosbarth heb balmantu, llwybrau caniataol a'r llwybr rhanbarthol poblogaidd, Llwybr Dyffryn Gwy. Bydd y strategaeth yn edrych ar y defnydd ar hyn o bryd er mwyn creu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Ni fydd yn adolygu honiadau am lwybrau hanesyddol, sy'n cwmpasu'r afon (llywio) na'r rhwydwaith ffyrdd palmantog.

## 6. Pam fod angen i ni gymryd golwg strategol?

Mae tair agwedd i'w hystyried, nad ydynt wastad yn ategu ei gilydd:

a) **Mynediad Cyhoeddus at ddibenion amrywiol -** Mae'r traciau a'r llwybrau hyn yn cynnig mynediad cyhoeddus heb ei ail yn yr AHNE ac o'i chwmpas. Mae'r rhwydwaith yn darparu cysylltiadau ffyrdd hanfodol oddi ar y briffordd rhwng ffermydd, pentrefannau, pentrefi, trefi a safleoedd a nodweddion eraill. Mae'n cynnig cyfleoedd hamdden eithriadol i amrywiaeth o ddefnyddwyr, gan gynnwys trigolion lleol ac ymwelwyr ac fe'i defnyddir gan ystod eang o bobl gan gynnwys cerddwyr, rhedwyr, beicwyr, marchogion a cherbydau modur.

b) **Tirlun unigryw -** AHNE Dyffryn Gwy yw un o'r tirweddau mwyaf naturiol hardd a chyfoethog o ran hanes yn y DU. Mae'r rhwydwaith a'r llwybrau unigol eu hunain yn nodweddion treftadaeth unigryw, gan gynnwys milltiroedd o waliau cerrig sychion, strwythurau treftadaeth cyfagos, llinellau o goed hynafol a gwrychoedd sy'n ffurfio coridorau bywyd gwyllt ar gyfer rhywogaethau prin, gwarchodedig a rhywogaethau sy'n prinhau.

c) **Amgylchedd o dan fygythiad -** Mae dyfodol nifer o'r llwybrau hanesyddol hyn o dan fygythiad yn sgil cyfraddau uchel o erydiad, i bwynt lle:
   - Maent yn sianelu lefelau uchel o ddŵr ffo o'r tir o amgylch, gan arwain at erydiad pellach a chynyddu'r perygl o lifogydd yn lleol, gyda chostau economaidd-gymdeithasol cysylltiedig. Bygythiad sy'n cael ei waethygu gan newid hinsawdd a'r cynnydd yn nifer a ffyrnigrwydd stormydd.
   - Maent weithiau'n anodd eu defnyddio'n ddiogel gan y rhai sydd â'r hawl gyfreithiol i'w defnyddio.

[2] Prosiect Pentrefi Dyffryn Gwy – Sir Fynwy
[3] Gwelliannau Seilwaith Gwyrdd – AHNE Dyffryn Gwy

- Mae cost atgyweiriadau i lwybrau yn her, gyda llai o gyllidebau awdurdodau lleol a llawer o alwadau gwahanol yn cael eu gwneud ar yr adnoddau hynny.
- Gall nodweddion tirwedd a threftadaeth sy'n cael eu trysori ar hyd llwybrau gael eu colli neu achosi risg i iechyd, diogelwch a mynediad yn y dyfodol, os na chânt eu hadfer neu eu gwarchod.

Drwy gymryd golwg strategol, gallwn ystyried yr agweddau gwahanol hyn i ddod â'r buddion mwyaf.

## 7. Pam fod yr ymgynghoriad hwn yn digwydd yn ystod y cam hwn o'r broses?

Mae nifer o wahanol ffyrdd y gellid mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu traciau a llwybrau AHNE Dyffryn Gwy. Cyn gwneud unrhyw benderfyniadau, a gofyn am gyllid, gofynnir i'r cyhoedd helpu i siapio'r strategaeth. Hoffem i chi ddweud wrthym beth yw'r materion yn lleol ac sy'n ymwneud â'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus a rhwydwaith Ffyrdd Sirol Di-ddosbarth, a sut gellid eu datrys o bosib, gan ystyried anghenion holl ddefnyddwyr gwahanol y traciau a'r llwybrau.

## 8. Pwy sy'n ein helpu ni gyda'r ymgynghoriad?

Datblygwyd Gwahoddiad i Dendro gan AHNE Dyffryn Gwy, gan weithio gyda thîm Caffael Cyngor Swydd Henffordd, ar gyfer datblygu'r Strategaeth Mynediad Hamdden Integredig ar gyfer rhan Sir Fynwy o AHNE Dyffryn Gwy. O ganlyniad i'r broses dendro honno, mae Tomorrow's Tourism wedi'i phenodi. Mae tîm Tomorrow's Tourism, gyda chefnogaeth XV Insight yn dod â phrofiad o dwristiaeth, hamdden ac ymgynghori effeithiol.

## 9.Beth sy'n digwydd nesaf?

Pan fydd yr ymgynghoriad wedi'i gwblhau, caiff yr holl adborth ei adolygu a'i ystyried wrth ddatblygu'r strategaeth. Bydd pob ymateb yn cael ei ystyried, boed wedi'i gyflwyno ar-lein, yn ysgrifenedig neu'n bersonol.

Ni ellir cynnwys na gweithredu popeth a awgrymir yn yr ymgynghoriad. Mae'n debygol iawn y bydd angen cyfaddawdu, yn enwedig lle bo dymuniadau'n gwrthdaro rhwng gwahanol ddefnyddwyr a/neu grwpiau buddiant. Gall ffactorau cyfyngol eraill gynnwys gofynion deddfwriaethol a chyfyngiadau cyllidebol.

Bydd strategaeth a chynllun gweithredu i gyflawni'r strategaeth honno yn cael eu datblygu a'u cyhoeddi. Ni fydd y cynllun gweithredu dilynol yn cynnwys atebion na gwelliannau yn Lloegr, ond croesewir barn pawb ac efallai y bydd rhai atebion yn drosglwyddadwy.

wye valley dyffryn gwy
Area of Outstanding Natural Beauty
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

## Ardal Brosiect Traciau a Llwybrau Rhannau Isaf Dyffryn Gwy

